**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH CHWEFROR 11eg 2025 AM 7.00yh YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Tim Archer (Cadeirydd); Y Cynghorwyr, Phillip Davies, Rhys Davies, Elizabeth Evans, Rhodri Jones a Diana Mace.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

**519. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies, Darryl Evans, Lloyd Garvey ac Agnieszka Kalinowska.

**520. GWEITHDREFN**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Tim Archer.

**521. DATGELU BUDDIANT PERSONOL**

Datgelodd y Cynghorwyr isod fuddiant personol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cofnod 526 – aelodaeth Pwyllgor Pwll Nofio Aberaeron | Cynghorwyr Elizabeth Evans a Rhodri Jones (diddordeb personol) |
| Cofnod 527 – Ceisiadau cynllunio | Cynghorydd Rhys Davies (diddordeb personol a niweidiol) |

**522. HEDDLU DYFED POWYS**

Croesawodd y Cadeirydd SCCH Charlotte Carter a PC Chris Tipper i'r cyfarfod a darparwyd y wybodaeth ganlynol.

Digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ffordd y Gaer. Roedd menter 'Ivydean' yn dal yn bodoli a gofynnwyd am fwy o ariannu.

Gwnaethpwyd cais i ymchwilio i gar a adawyd ym Mhant y Gof

Eglurhau'r bolardiau yn Stryd y Fro.

**523. COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR IONAWR 14eg 2025**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Ionawr 14eg 2025 yn gywir.

**524. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| Telemat (darpariaeth Wifi Hyd-Ion) | £168 |
| Goetre Villa (Plannu coed yn y Cae Sgwâr) | £2,361.85 |
| AA Mole Control & Pest Services (llygod ffyrnig y Cae Sgwâr) | £700 |

| | |
|---|---|
| AaBbCc (cyfieithiadau Medi-Rhag) | £388.12 |

**525. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddau gais am gymorth ariannol, a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) Gofyn am gopi'r cyfrifon diweddaraf gan Bwll Nofio Aberaeron a'r Cylch cyn ystyried y cais yng nghyfarfod mis Mawrth;
b) Cyfrannu £208.62 at Grŵp ECO Ysgol Gyfun Aberaeron ynghylch prynu deunyddiau i godi gwelyau yn eu perllan.

**526. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio canlynol

a) A240951(Caniatad Adeilad Rhestredig) - Fairview, 3 Cadwgan, Aberaeron. Adnewyddiad llwyr o ddwy ffenest grom i'r blaen a thrwsio / adnewyddu gweddill y ffenestri fel bo angen ( y cyfan mewn coed sapele / accoya o waith asiedydd)

b) A250016 (Deiliad y tŷ) / A250017(Caniatad Adeilad Rhestredig) - Fairview, 3 Cadwgan, Aberaeron. Dymchwel yr adeiladau allanol ac adeiladu estyniad newydd.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad i'r estyniad newydd, a gofyn i'r ffenestri newydd gael eu newid yn llwyr, heb drwsio'r rhai cyfredol.

**527. MATERION TIR Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) **Cae Sgwâr:** cytuno i roi trwydded ar gyfer Sioe Ceffylau Gwedd Gorllewin Cymru ar ddydd Sul Gorffennaf 27ain 2025, a gofyn i'r trefnwyr i beidio gwasgaru calch ger y coed.

b) **Parc-y-Fro:**

- Trefnu trwsio darn o'r ffens a ddifrodwyd yn ystod Storm Darragh
- Meinciau coffa

c) **Allt-y-graig:** gweithredu ynghylch y coed a gwympodd.

**528. GWASANAETHAU DATGANOLEDIG CYNGOR SIR CEREDIGION**

**a) Gwasanaeth Glanhau'r Stryd**

Datganodd y Clerc bod Teresa Tanahill wedi ennill cytundeb glanhau'r stryd ar gyfer 2025-26 i'r cyfanswm £16,000. Trafododd yr Aelodau'r fantais o sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y Cyngor yma, a chytunwyd i roi siaced hi-viz yn rhoi'r wybodaeth yma. **PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cytundeb i Teresa Tanahill ar gyfer 2025-26 i'r cyfanswm £16,000.

**b) Toiledau**

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr e-bost dyddiedig Tachwedd 21ain 2024 oddi wrth y Cyngor Sir.

**529. DIWEDDARIAD PROSIECTAU DIGIDOL**

Nodwyd y sefyllfa gyfredol.

**530. YMGYNGHORIAD ARDAL GADWRAETH**

Rhoddwyd ystyriaeth i ymgynghoriad y Cyngor Sir ar Werthusiad Ardal Gadwraeth Aberaeron a'r Cyfarwyddyd Ychwanegol i'r Cynllun Rheolaeth Ddrafft.

**PENDERFYNWYD** ailadrodd y sylwadau canlynol:

- Croesawu cynnwys 1-4- Stryd y Fro
- Argymell y dylid cynnwys Parc-y-Fro
- Peidio cefnogi canllaw dylunio lliw gan y credir bod y sefyllfa bresennol, gyda thrigolion yn dewis lliwiau yn unol â chwaeth bersonol, a'r awydd i asio heb wrthdaro gydag anheddau cyfagos.

**531. BOLARDIAU YN HEOL Y BRYN**

Rhoddwyd ystyriaeth i e-bost dyddiedig Chwefror 7fed 2025 oddi wrth y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor "ddarparu tystiolaeth ddogfennol fod y cyhoedd yn defnyddio'r ardal fel llwybr troed am gyfnod mwy nag ugain mlynedd cyn 19/05/2022. Mae'r dystiolaeth ddogfennol yma yn allweddol i bennu os oes unrhyw hawliau".

Cyfeiriodd yr Aelodau at y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir drwy e-bost ar Fehefin 27ain 2023 fod ganddo'r hawl, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, i weithredu dan ddarpariaethau Adran 143 Deddf Priffyrdd 1980, i waredu strwythurau oddi ar briffyrdd ble, yn eu barn,"rhwystrir priffordd gyhoeddus, gan achosi naill ai niwsans neu risg diogelwch i'r cyhoedd sy'n dymuno ei ddefnyddio".

Datganodd y Clerc ei fod wedi ymateb i'r Cyngor Sir drwy e-bost dyddiedig Gorffennaf 12fed 2023 yn datgan "Mae Aelodau yn dal i bryderu ynghylch y bolardiau ac maent o'r farn eu bod yn rhwystro a chreu niwsans a risg diogelwch i'r cyhoedd sy'n dymuno ei ddefnyddio; ac ei fod o ddiddordeb cyhoeddus a defnydd da o adnoddau cyfyngedig i weithredu i'w gwaredu. I'r perwyl yma, mae'n gofyn i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, i ystyried defnyddio'r pwerau dan ddarpariaethau Adran 143 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980 i waredu'r bolardiau."

Felly **PENDERFYNWYD** ailadrodd hyn i'r Cyngor Sir fod y Cyngor yma yn gofyn am weithrediad yn ôl Adran 143 o'r Ddeddf Priffyrdd 1080.

**532. ADLEOLI'R LLYFRGELL**

**PENDERFYNWYD** nodi bod y Cyngor Sir unwaith eto wedi ymestyn y cyfnod i ymateb i'r cwyn corfforaethol; a bod Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi datgan eu bod yn dal mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir ar y mater.

**533. <u>YMDDISWYDDIAD CYNGHORWYR A'R TREFNIADAU I LENWI'R SWYDDI</u>**

Adroddodd y Clerc mai'r dyddiad cau a osodwyd gan Swyddog Etholiad Ceredigion ar gyfer rhan gyntaf y broses oedd Chwefror 13eg, a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc i adrodd nôl yng nghyfarfod mis Mawrth ar y camau nesaf.

**534. <u>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS</u>**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Roedd paratoadau cyllideb 2025-26 yn parhau, gyda chynnydd Treth y Cyngor o 9.9% dan ystyriaeth
- Roedd ystyriaeth addysg ôl-16 yn y Sir yn parhau
- Rhagwelwyd y byddai cynnydd o 5% yn ffioedd yr harbwr.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.50yh.